# BAGLORIAETH CYMRU
## Cenedlaethol (Ôl 16)

# Her Dinasyddiaeth Fyd-eang
## Cyfoeth Naturiol Cymru
## Atebion Cynaliadwy ar gyfer Gwastraff

**Ar gael i'w asesu o fis Mai 2017**

© WJEC CBAC Ltd.

# Atebion Cynaliadwy ar gyfer Gwastraff

## DIBEN

Diben yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang yw meithrin sgiliau dysgwyr, wrth ddarparu cyfleoedd iddynt ddeall materion byd-eang ac ymateb yn briodol iddynt.  Fel rhan o'r Her Dinasyddiaeth Fyd-eang, bydd y dysgwyr yn meithrin sgiliau penodol ym maes **Meddwl yn Feirniadol** a **Datrys Problemau**, **Creadigedd ac Arloesi** a **Llythrennedd** ac yn eu defnyddio mewn modd priodol.

## BRIFF

Mae yna lawer o broblemau yn y byd y dylem i gyd helpu i'w datrys hyd yn oed os ydynt yn digwydd gannoedd neu filoedd o filltiroedd i ffwrdd, neu yn eich ardal chi yma yng Nghymru. Sut ydych chi'n dod yn ddinesydd byd-eang? Mae'n rhaid i chi ddatblygu cydwybod ddynol a barnu ar y materion sy'n bwysig a'r math o fyd yr ydych eisiau byw ynddo. Mae bod yn ddinesydd byd-eang yn rhoi'r gallu i chi wneud newid positif sy'n gwneud y byd hwn yn well lle.



Mae cyfrifoldeb ar **Cyfoeth Naturiol Cymru** i sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio mewn modd cynaliadwy nawr ac yn y dyfodol. Mae **Cyfoeth Naturiol Cymru** yn defnyddio dull cydgysylltiedig o reoli ein hadnoddau naturiol er mwyn adeiladu amgylchedd iach a gwydn a all gefnogi ffyniant economaidd a chymdeithasol am genedlaethau i ddod.

Mae **Taclo Tipio Cymru**, menter wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru a'i chydlynu gan **Cyfoeth Naturiol Cymru**, yn mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon. Sbwriel sy'n cael ei daflu'n anghyfreithlon - dyna beth yw tipio anghyfreithlon. Gall amrywio o fagiau bin, oergelloedd a matresi gwelyau i domen o wastraff o gefn lori. Gall lanio yn unrhyw le - ar ochrau ffyrdd, mewn cilfannau neu ar dir preifat. Bob blwyddyn, mae 42,000 tunnell o sbwriel sy'n cael ei daflu'n anghyfreithlon yn cael ei gofnodi yng Nghymru. Mae'r gwaith clirio'n costio £2.1 miliwn a mwy i drethdalwyr Cymru.

Mae'r Her Dinasyddiaeth Fyd-eang yn rhoi cyfle i chi ennyn gwybodaeth a dealltwriaeth o sut all bobl gael gwared â'u gwastraff domestig mewn modd cynaliadwy, ac yn rhoi syniad i chi o'r sialensiau a wynebir ledled y byd wrth fynd i'r afael â'r mater hwn. Byddwch yn datblygu ac yn cefnogi dadleuon neu safbwyntiau penodol ar y mater byd-eang hwn er mwyn llunio eich **Safbwynt Personol**.

Yn ystod yr Her hon, byddwch yn defnyddio amrywiaeth o wybodaeth ar reoli gwastraff i archwilio gwahanol safbwyntiau bobl ac yn ffurfio eich syniadau chi ar y mater byd-eang hwn. Nod yr her yw annog mwy o bobl i gael gwared â'u gwastraff domestig a'u sbwriel cyffredinol yn gynaliadwy er mwyn cefnogi cymunedau gwydn a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd yn fyd-eang. Wedyn, bydd angen i chi gynhyrchu eitem ar gyfer Arddangosfa ar **reoli gwastraff** i addysgu, ysgogi ac annog pobl i feddwl a gweithredu fel dinasyddion byd-eang. Dylech ddylunio eich eitem mewn ffordd greadigol ac arloesol fel ei bod yn apelio at eich cynulleidfa darged a defnyddio cyfathrebu effeithiol gan roi neges glir sy'n gofiadwy, gwreiddiol a pherthnasol.

© WJEC CBAC Ltd.

Bydd cwblhau'r Her hon yn dangos eich bod yn gallu ymresymu, barnu a gwneud penderfyniadau er mwyn creu safbwynt personol deallus ar **reoli gwastraff**. Bydd cynhyrchu eitem ar gyfer arddangosfa yn gyfle i chi ddangos pa mor greadigol ac arloesol y gallwch fod wrth gyfleu eich syniadau a chyflwyno'ch neges i bobl eraill.

**MANYLION CYSWLLT**
Ebost: education@naturalresourceswales.gov.uk
Gwefan: www.naturalresources.wales

© WJEC CBAC Ltd. 